**Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni**

**Tymor yr Hydref 2020**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail**

Mae'r adroddiad yma'n crynhoi'r camau a gymerodd y Corff Llywodraethu i gyflawni'i swyddogaethau ers yr adroddiad diwethaf.

## 1. Clerc y Corff Llywodraethu

Clerc y Corff Llywodraethu yw Mrs Gaynor Davies, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

## 2. Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Cadeirydd y Corff Llywodraethu yw Mr A Gould d/o Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, Cilgant Martin, Tonyrefail, Y Porth, CF39 8NT.

## 3. Aelodau o'r Corff Llywodraethu

Dyma'r rhai sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd:

| **Enw** | **Math o Lywodraethwr** | **Penodwyd gan** | **Dyddiad y daw'r swydd i ben** |
|---|---|---|---|
| Mrs G Edwards<br>Miss B Griffiths<br>Mrs H Prosser | **AALl** | **Aelodau o'r Cyngor** | 23/10/2022<br>23/09/2023<br>19/11/2023 |
| Mr A Gould<br>Mr L Owen<br>Mrs D Walters | **Llywodraethwyr Cymunedol** | **Corff Llywodraethu** | 19/11/2022<br>20/11/2021<br>13/10/2024 |
| Mr M Butler<br>Mr S Davies<br>Mrs B Fletcher<br>Mrs A Phillips | **Rhiant** | **Rhieni** | 19/11/2022<br>19/10/2022<br>10/02/2024<br>03/11/2024 |
| Cllr J Abbott | **Awdurdod Llai** | **Cyngor Tref/Cymuned** | 31/08/2023 |
| Miss C Hughes | **Athro/Athrawes** | **Staff Addysgu** | 09/10/2021 |
| Mrs S Jones | **Staff** | **Staff sydd ddim yn addysgu** | 23/09/2024 |
| Mrs N Downes | **Pennaeth** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

Pan fydd yn gyflawn, dyma nifer yr aelodau ar gyfer pob carfan

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynrychiolwyr ALl** | 3 | **Llywodraethwyr Cymunedol** | 3 |
| **Rhiant-lywodraethwyr** | 4 | **Athro-lywodraethwyr** | 1 |
| **Cynrychiolwyr y staff** | 1 | **Awdurdod llai (os yn gymwys)** | 1 |
| **Pennaeth** | 1 | **Cyfanswm** | 14 |

**4. Penderfyniadau**

Doedd dim penderfyniadau yn y cyfarfod diwethaf.

**5. Ethol Rhiant-lywodraethwyr**

Mae'r etholiad nesaf ar gyfer rhiant-lywodraethwyr ar 19/10/2022
Serch hynny, os bydd rhiant-lywodraethwr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad hwnnw, byddwn ni'n trefnu etholiad arbennig ar yr adeg briodol.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd ni chynhelir etholiad ar gyfer rhiant llywodraethwyr. Bydd hyn yn cael ei wneud pan fydd y sefyllfa'n normaleiddio.

**6. Data Cyflawniad yr Ysgol**

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael oherwydd cyfyngiadau pandemig.

**7. Adroddiad Ariannol – am y cyfnod 2019–2020**

Atodwn gopi o adroddiad ariannol yr ysgol am y flwyddyn ariannol 2019/20 (Atodiad A).

**8. Prosbectws yr Ysgol**

Byddwn ni'n adolygu Prosbectws yr Ysgol yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau mae Llywodraeth Cymru neu gyrff perthnasol eraill yn eu mynnu. Fel arfer, byddwn ni'n rhoi copi o'r prosbectws i rieni y mae eu plant nhw'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu'r rheiny sy'n trosglwyddo o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau neu o'r ysgol iau/cynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r rhieni'n cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r prosbectws cyfredol.

**9. Cynllun Datblygu'r Ysgol**

Y llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol (ar y cyd â'r staff). Mae'r cynllun yn nodi'r cyfeiriad y bydd yr ysgol yn ei ddilyn, dros gyfnod o dair blynedd, wrth ddarparu'r cwricwlwm. Caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n gyson er mwyn ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud ac unrhyw newidiadau i ofynion y cwricwlwm.

| Cynllyn Datblygu YGG Tonyrefail 2020-2021<br>YGG Tonyrefail 2020-2021 School Development Plan | | |
|---|---|---|
| **BLAENORIAETH 1<br>PRIORITY 1** | **Parhau i godi lefelau llythrennedd yn yr ysgol** | **Continue to raise standards in literacy throughout the school** |
| **BLAENORIAETH 2<br>PRIORITY 2** | **Sicrhau Llês Emosiynol Disgyblion a Staff** | **Ensure the Emotional Wellbeing of Pupils and Staff** |
| **BLAENORIAETH 3<br>PRIORITY 3** | **Gwreiddio Cwricwlwm Cymru yn gadarn drwy'r ysgol** | **Embed Curriculum for Wales firmly throughout the school** |
| **BLAENORIAETH 4<br>PRIORITY 4** | **Datblygu Dysgu Cyfunol** | **Develop Blended Learning** |
| **BLAENORIAETH 5<br>PRIORITY 5** | **Parhau i Ddatblygu Dysgu Digidol** | **Continue to develop Digital Learning Skills** |

**Llwyddiannau'r Ysgol**

- Blwyddyn 5 (2019-2020) yn ennill y wobr gyntaf drwy Gymru am eu gwaith gyda Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar brosiect Bylbiau'r Gwanwyn. Rydym yn hynod falch o'u llwyddiant.
- Wedi ennill £1,000 I'r ysgol am fod yn un o'r 10 uchaf yng nghystadleuaeth Llaeth y Llan I ail ddefnyddio potiau yogwrt mewn ffordd greadigol drwy adeiladu model o gastell Conwy. Bydd y Cyngor Eco yn penderfynu ar sut i wario'r arian.
- Wedi llwyddo yn ein cais i ennill grant chwaraeon o £250 gan RhCT. Mae'r arian wedi ei wario ar brynu offer tenis a rygbi newydd i'r ysgol.
- Llwyddiannus yn ein her Meccano – 'CO-LAB Design Challenge' ac o ganlyniad derbyniodd yr ysgol adnoddau Meccano i'w defnyddio yn ystod ein gweithgareddau Stem.

**10.** **<u>Defnydd o'r Gymraeg</u>**

Cymraeg yw iaith swyddogol gwaith yr ysgol, ac mae'r plant yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd cwbl Gymraeg. Ein nod yn Ysgol Gynradd

Gymraeg Tonyrefail yw sicrhau bod pob disgybl, beth bynnag fo'u cenedligrwydd, gallu, crefydd neu gefndir diwylliannol, yn derbyn cwricwlwm eang a chytbwys sy'n wahaniaethol ac yn bwrpasol. Addysgir Saesneg yn ffurfiol i ddisgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen. Mae pob disgybl yn derbyn cyfle cyfartal a'r cyfle i chwarae rhan weithredol ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol yr ysgol.
Rydym yn gweithio tuag at ein Siarter Iaith Gwobr Arian (Gwobr Arian) - bu’n rhaid gohirio’r broses achredu oherwydd cyfyngiadau Covid 19.

## 11. <u>Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad</u>

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw faterion allweddol y tynnodd yr arolygwyr ein sylw ni atyn nhw  yn dilyn arolygiad (allanol) yr ysgol ym mis Tachwedd 2016. Mae'r rhieni'n derbyn copi o adroddiad cryno yr arolygwyr.
Mae'r llywodraethwyr yn monitro cynnydd y cynllun yn eu cyfarfodydd tymhoro.l

## 12. <u>Dyddiadau tymhorau a gwyliau y flwyddyn academaidd 2020/2021</u>

| | | Dechrau | Gorffen | | Diwrnodau Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref 2020 | Dydd Mawrth 1 Medi 2020 | Dydd Llun 26 Hydref 2020 | Dydd Gwener 30 Hydref 2020 | Dydd Gwener 18 Rhagfyr 2020 | 74 |
| Tymor y Gwanwyn 2021 | Dydd Mawrth 4 Ionawr 2021 | Dydd Llun 15 Chwefror 2021 | Dydd Gwener 19 Chwefror 2021 | Dydd Gwener 26 Mawrth 2021 | 55 |
| Tymor yr Haf 2021 | Dydd Llun 12 Ebrill 2021 | Dydd Llun 31 Mai 2021 | Dydd Gwener 4 Mehefin 2021 | Dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2021 | 66 |
| | | | | CYFANSWM | **195** |

i) Bydd <u>**dydd Llun 1 Medi 2020**</u> yn ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd ar gyfer <u>**pob**</u> ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr Awdurdod Addysg Leol. Yr ysgolion unigol fydd yn

penderfynu ar ddyddiadau'r pedwar diwrnod hyfforddiant mewn swydd arall, yn dilyn ymgynghoriad priodol â staff.

Bydd pob ysgol ar gau **<u>ddydd Llun 3 Mai 2021</u>** oherwydd Gŵyl Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig: Dydd Nadolig Dydd Gwener 25 Rhagfyr 2020

Y Pasg Dydd Gwener y Groglith 2 Ebrill 2021
Dydd Llun y Pasg 5 Ebrill 2021

Gwyliau Banc Mai Dydd Llun 3 Mai 2021
Dydd Llun 31 Mai 2021

Os bydd rhaid cau'r ysgol ar gyfer cynnal etholiadau, rhaid unioni'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn academaidd.

**<u>Dyddiadau pwysig</u>**:

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu dyrannu diwrnodau HMS ychwanegol. Bydd yr ysgolion yn cael gwybod am y rhain ar yr adeg briodol.

<u>Amseroedd dechrau a gorffen ysgol</u>
Oherwydd Covid 19 mae amserlen gyfnodol ar gyfer amseroedd cychwyn a gorffen ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau, mae hyn er mwyn sicrhau bod nifer llai o ddisgyblion a rhieni yn cyrraedd yr ysgol ar amser penodol.

## 13. <u>Yr Ysgol a'r Gymuned</u>

Mae ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn un sy'n: ‘darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau’, yn aml y tu hwnt i oriau'r ysgol, er mwyn diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru, mae nifer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys addysg i oedolion, cefnogaeth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol.

Nid prosiect tymor byr yw datblygu cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned. Mae'n gyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau gydweithio mewn ffyrdd newydd er budd plant, pobl ifainc ac oedolion.

Yn yr ysgol cynnigyr:

- Clwb Brecwast
- Gofal cofleidiol a gofal ar ôl ysgol sydd wedi ei ddarparu gan gwmni Flourish.Cymru
- Cylch Meithrin Cwm Elai sydd yn Ddarparwr Addysg Cofrestredig sy’n cynnig gofal Dechrau’n Deg

Clwb Ar Ôl Ysgol I'r Cyfnod Sylfaen

- Yr Urdd Blynyddoedd 1 a 2

Clwb Ar Ôl Ysgol I'r Cyfnod Sylfaen

- Yr Urdd
- Clwb Digidol
- Clwb Creadigol

Cylch Meithrin Cwm Elai & Ysgol Llanhari – diwrnodau trosglwyddo
Eglwys Dewi Sant, Yr Heddlu, Nyrs ysgol, Theatre y Savoy, Canolfan Hamdden Tonyrefail,Tonyrefail, Tesco, Spar.

Cefnogi Elusennau
Cefnogodd yr ysgol yr elusennau canlynol yn ystod y flwyddyn academaidd 2019 - 20 academic year

- MacMillan - £347.57
- Save The Children- £97.02
- Children in Need £210
- Sport Relief - £111.95

**14. Adolygu polisïau'r ysgol**

Mae'r ysgol wedi paratoi nifer o ddogfennau polisi sy'n trafod meysydd y cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff/llywodraethwyr yn adolygu'r rhain yn barhaus ac yn eu diweddaru ar gyfer cynnwys datblygiadau a gofynion deddfau newydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy gysylltu â'r Pennaeth yn ystod oriau'r ysgol. Diweddarwyd y Polisi Diogelu yn Nhymor yr Hydref

**15. Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae Crynodeb o Bolisi'r Ysgol ar gyfer Asesiad a Darpariaeth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel a ganlyn:

Mae polisi'r ysgol o ran adnabod, asesu a darparu yn achos disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyson â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a gafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2002.

Mae Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yr Ysgol yn cydweithio'n agos â'r holl aelodau eraill o staff i sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn diwallu anghenion y disgyblion, a hynny'n addas i'r rheiny sydd eu hangen.

Mae'r Cydlynydd hefyd yn cysylltu â'r holl aelodau o staff i sicrhau bod cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro a'i asesu yn rheolaidd a sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd eu potensial.

Yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, ar ddyddiad Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, roedd:
15 disgybl ar Gam Gweithredu'r Ysgol / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar.
10 disgybl ar Gam Gweithredu'r Ysgol a Mwy / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy (gan gynnwys y rhai oedd â Nodyn i ddisgwyl Datganiad).
0 disgybl dan drefn Asesiad Statudol.
ac roedd gan 2 disgybl Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019–2020, cafodd £36,059 ei ddyrannu i ddiwallu anghenion plant ag Anghenion Addysgol Arbennig. Yn ychwanegol at hyn, rhoddodd yr AALl gefnogaeth ychwanegol i 10 o ddisgyblion ar Gam Gweithredu Ysgol a Mwy.

## 16. <u>Mynediad i Ddisgyblion Anabl</u>

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymwybodol o ofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2005 wrth lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol / Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg, a gweithrediad dyddiol y safle.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu manteisio ar gwricwlwm yr ysgol a gweithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, digwyddiadau chwaraeon/hamdden ac ymweliadau addysgiadol (os ydyn nhw'n dymuno). Mae pob agwedd ar fynediad, gan gynnwys mynediad i wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio.

Mae gan y Sir Strategaeth Hygyrchedd ac mae archwiliad wedi ei wneud o safle'r ysgol yn unol â'r strategaeth yma, fel rhan o friff yr Awdurdod, i nodi unrhyw rwystrau posib ac (yn y pen draw) wella mynediad i'r ysgol.

## 17. <u>Cyfansoddiad yr Adeilad a Darpariaeth y Cyfleusterau Toiled</u>

Symudodd YGGTonyrefail i'n safle presennol ym mis Tachwedd 2018. Yn gyffredinol mae'r adeilad mewn cyflwr da. Mae iardiau ysgol wedi'u hamserlennu ar gyfer gwaith ail-wynebu a gafodd ei ohirio ym mis Ebrill 2020 oherwydd Covid 19.

Mae holl gyfleusterau ymolchi yr ysgol yn cael eu monitro a'u glanhau bob dydd neu yn ôl yr angen yn ystod y dydd gan lanhawyr a gofalwr yr ysgol. Oherwydd Covid 19 mae'r holl doiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd yn ystod y dydd.
Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a Dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen Uchaf yn rhannu toiledau cyfagos i'w hystafelloedd dosbarth.
Mae toiledau y Meithrin yn gyfagos i'r dosbarth ac mae toiledau'r Derbyn mewn lleoliad cyfleus i'r dosbarth.
Mae toiledau yng nghoridor y brif ysgol ac wrth ymyl y dderbynfa, mae'r rhain yn cynnwys 2 doiled ar gyfer yr anabl.

## 18. <u>Gosod targedau</u>

Nid yw’r wybodaeth hon ar gael oherwydd cyfyngiadau pandemig.

**19. Manylion ar faterion Presenoldeb**

Nid yw’r wybodaeth hon ar gael oherwydd cyfyngiadau pandemig.

**20. Trefniadau Derbyn/Pontio**

Y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol (ar wahân i ysgolion yr Eglwys, lle mai corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn) o fewn ffiniau'r Awdurdod. Mae'r trefniadau derbyn disgyblion, felly, yn cael eu gweithredu yn unol â pholisi'r Awdurdod ar dderbyn disgyblion, sydd wedi'i gynnwys yn y llyfryn Dechrau'r Ysgol. Caiff rhieni gopi o'r llyfryn ar ôl llenwi cais am le yn yr ysgol i'w plentyn. Gellir hefyd weld cynnwys y llyfryn hwn ar-lein ar wefan yr Awdurdod.

Bydd disgyblion fel arfer yn aros yn yr ysgol hyd nes iddynt gwblhau blwyddyn chwech ac yna symud i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol hon yn bwydo Ysgol Llanhari ond, gall disgyblion ymgeisio i fynychu unrhyw ysgol uwchradd o'u dewis yn amodol ar gydymffurfio â pholisi derbyn disgyblion yr Awdurdod.

**21. Disgyblion sy'n gadael yr ysgol**

Symudodd 28 o ddisgyblion ymlaen i Addysg Uwchradd ar ddiwedd Tymor yr Haf 2020
Mae’r disgyblion yn ymweld ag Ysgol Llanhari yn rheolaidd trwy gydol Blwyddyn 6 fel rhan o'u rhaglen bontio, ac unwaith tra ym mlwyddyn 5. Roedd Blwyddyn 6 yn gallu ymweld â Llanhari unwaith cyn y cyfnod cloi oherwydd Covid 19. Rhannwyd gweithgareddau trosglwyddo ar-lein â disgyblion Blwyddyn 6.

**22. Amcanion a Champau Byd Chwaraeon**

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys pêl-droed, rygbi, athletau, pêl-rwyd a phêl-fasged.
Effeithiwyd ar weithgareddau chwaraeon oherwydd cyfnod clo’r pandemig. Mewn blwyddyn arferol mae disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau chwaraeon trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys: gwersi nofio a phêl fasged i holl ddisgyblion CA2, mae timau pêl-droed bechgyn a merched, rygbi a phêl-fasged wedi cystadlu mewn nifer o dwrnameintiau, ac yng nghystadleuthau Traws Gwlad RhCT a’r Urdd. Mae gweithgareddau chwaraeon hefyd yn cael eu cynnal mewn clybiau ar ôl ysgol, gweithdai hyfforddi, dysgu awyr agored, Diwrnod Chwaraeon Ysgol, Sgiliau Adeiladu Tîm.
Mae gennym ddau Lysgennad Chwaraeon Efydd RCT sy'n helpu i drefnu gweithgareddau chwaraeon yn yr ysgol.

## 23. <u>Bwyta'n Iach</u>

Rydym yn hyrwyddo bwyta'n iach yn yr ysgol, yn ystod amseroedd chwarae yr ydym yn caniatáu i blant ddod â ffrwythau / llysiau a diod neu ddŵr llonydd yn unig. Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gyfrifol am redeg y siop ffrwythau yn yr ysgol ac maen nhw'n gwerthu amrywiaeth o ffrwythau. (Nid yn ystod cynfod Covid 19). Rydym wedi cyflawni'r 5ed cam yn safonau Ysgolion Iach.

**ATODIAD A**

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL

DATGANIAD ARIANNOL DROS DRO AR GYFER 2019/2020

| **TREULIAU CYNNAL GWEITHWYR** | **Cyfanswm a wariwyd** |
|---|---|
| | |
| ATHRAWON (pennaeth / athrawon cyflenwi / cymorth darllen) | £427,249 |
| LLAFURWYR (gofalwr / cynorthwywyr goruchwylio / glanhawyr) | £54,765 |
| Clerc Ysgol / Nyrs Meithrin / Cymorth Ysgol<br>. | £160,463 |
| **MATERION ADEILAD/SAFLE** | |
| ATGYWEIRIO'R ADEILAD/SAFLE (gan gynnwys cynnal a chadw'r tir / diogeledd) | £12,042 |
| YNNI | £18,175 |
| TRETHI LLEOL | £23,359 |
| DŴR | £2,605 |
| DEUNYDDIAU GLANHAU | £1,393 |
| **CYFLENWAD (STOC), GWASANAETHAU A THREULIAU ERAILL** | |
| CYFARPAR/CELFI | £22,088 |
| POSTIO | £140 |
| FFÔN | £1,396 |
| YSWIRIANT | £24,409 |
| CLERC Y CORFF LLYWODRAETHU / GWEINYDDIAETH ARIANNOL / MATERION PERSONÉL | £6,842 |
| DEFNYDDIO CYFLEUSTERAU'R ARDAL | £2,351 |
| Amrywiol | £3,401 |
| CYFANSWM: | £760,678 |
| **INCWM** | £106,469 |
| Amrywiol | £21,896 |
| CYFANSWM | £128,365 |